Caban Clyd
Cylch Meithrin y Felinheli, Buarth Ysgol Y Felinheli, Y Felinheli, LL56 4TZ
Ffon: 01248 670748

Elusen Gofrestredig Rhif 1094577

SOS

Mae ymgyrch i godi arian ar gyfer Cylch Meithrin Y Felinheli wedi cael cychwyn da gyda Thaith Feics Noddedig i'r plant ar Ddydd Gŵyl Dewi a cwis gyda'r hwyr.
"Yn anffodus mae pethau yn reit dynn yn ariannol yng Nghylch Meithrin Y Felinheli ac rydym yn cael trafferth cael dau ben llinyn ynghyd," meddai Siwsan Jones ar ran y pwyllgor.
"Felly, mae'r Pwyllgor yn rhoddi SOS allan i holl drigolion Y Felinheli am gefnogaeth i achub Y Cylch - boed hynny drwy gefnogi y digwyddiadau codi arian neu drwy roddion ariannol / nwyddau i'w rafflo ac yn y blaen.
"Daeth tua 50 o blant, rhieni, neiniau a theidiau a ffrindiau at ei gilydd i reidio beics ar y Lon Las dydd Sul, Mawrth cyntaf ac fe ddaeth nifer o dimau ynghyd gyda'r nos ar gyfer ein Cwis yn y Fic."
Mae'r Cynghorydd Sir lleol, Sian Gwenllian, yn cefnogi'r ymgyrch.
"Rwyf wedi trafod y problemau sydd wedi codi yn y Cylch efo'r swyddogion ac rwy'n hyderus eu bod wedi llunio ymgyrch codi arian drefnus a chynllun gweithredu fydd yn sicrhau dyfodol y Cylch. Rwy'n siŵr y bydd pobol y pentref yn awyddus i ymateb i'r SOS yma am help."
Mae'r digwyddiadau eraill yn cynnwys:

- Dydd Gwener Ebrill 3ydd Disco Diwedd Tymor i blant cynradd yn y Neuadd Goffa
- Dydd Gwener 12fed o Fehefin - Ocsiwn addewidion yng Ngwesty Seiont Manor

Os hoffech helpu a wnewch chi gysylltu a Siwsan Jones 07800934704 .